# DIARY MARKER / NODYN DYDDIADUR

# Improving and Expanding Practice in Participation: National Good Practice Conference

## *Gwella ac Ehangu Arfer mewn Cyfranogi: Cynhadledd Genedlaethol Arfer Da*

## *Supporting practitioners to promote the participation of children and young people*

**Location: Cefn Lea Park, Newtown**
**Date: Thursday 20th October**
**Cost: Free of charge**

With the commitment of the Welsh Government to participation and the development of the Children and Young People's National Participation Standards for Wales, the participation agenda is moving forward quickly in Wales. The involvement of young people in decision making is increasingly being sought, and participation in different settings and circumstances has led to the development of a wide range of tools and methods.

The Participation Workers' Network for Wales is organising this one-day conference to highlight methods through sharing examples of good practice. The conference is open to any practitioners who work with young people in Wales and it is intended that the audience will include practitioners looking to expand the methods that they currently use and practitioners looking at participation for the first time.

Delegates do not have to be members of either the PWNW or Children in Wales to attend.

The event will include

- Keynote speakers and presentations on the PWNW and the current work of the Participation Consortium.
- Breakout sessions showcasing the diversity of participation methods being

used in different sectors.

- Workshop looking at where participation will fit in the future.

More information on the programme and the opportunity to showcase good practice in the breakout sessions will follow in the coming weeks.

To discuss the conference in more detail please contact Ed Janes, PWNW Development Officer, in Children in Wales: Email PWNW@childreninwales.org.uk; Tel 029 2034 2434.

This event is being developed and coordinated by the Participation Workers' Network for Wales (PWNW), in Children in Wales. The Participation Workers' Network for Wales is funded by the European Social Fund as part of the Reach the Heights initiative.
The PWNW and Children in Wales are part of the Children and Young People's Participation Consortium for Wales. The Participation Consortium is developing capacity and practice in the participation of children and young people in Wales.
The PWNW acknowledges funding from the Participation Unit in Save the Children which has enabled this to be a Wales wide event.

# *Cefnogi ymarferwyr i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc*

**Lleoliad: Parc Cefn Lea, Y Drenewydd**
**Dyddiad: Dydd Iau 20 Hydref**
**Cost: Am ddim**

Gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfranogiad a datblygiad Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc i Gymru, mae'r agenda gyfranogi yn cymryd camau breision yng Nghymru. Yn gynyddol mae cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau yn cael ei ofyn, ac mae cyfranogi mewn gwahanol leoliadau ac amgylchiadau wedi arwain at ddatblygiad amrediad eang o offer a dulliau.

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru sy'n trefnu'r gynhadledd undydd hon a hynny i amlygu dulliau drwy rannu enghreifftiau o arfer da. Mae'r gynhadledd ar agor i unrhyw ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru a'r bwriad yw i'r gynulleidfa gynnwys ymarferwyr sydd am ehangu'r dulliau maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd ac ymarferwyr sy'n edrych ar gyfranogiad am y tro cyntaf.

Nid oes rhaid i'r sawl sy'n mynychu fod yn aelodau o'r Rhwydwaith nac o Plant yng Nghymru i fynychu.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys

- Prif siaradwyr a chyflwyniadau am y Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad a gwaith presennol y Consortiwm Cyfranogiad.
- Sesiynau grwp sy'n dangos amrywiaeth y dulliau cyfranogi sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol sectorau.

- Gweithdy sy'n edrych ar ble fydd cyfranogiad yn ffitio yn y dyfodol.

Bydd rhagor o wybodaeth am y rhaglen a'r cyfle i ddangos arfer da yn y sesiynau grwp yn dilyn yn yr wythnosau sy'n dod.

I drafod y gynhadledd yn fanylach, cysylltwch ag Ed Janes, Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith, yn Plant yng Nghymru: E-bost PWNW@childreninwales.org.uk ; Ffôn 029 2034 2434.

Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei ddatblygu a'i gyd-drefnu gan Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru, yn Plant yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn cael ei ariannu gan gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o fenter wyrraedd y Nod.
Mae'r Rhwydwaith a Plant yng Nghymru yn rhan o Gonsortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Mae'r Consortiwm Cyfranogiad yn datblygu gallu ac arfer ym maes cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad yn cydnabod cyllid oddi wrth yr Uned Gyfranogi yn Achub y Plant sydd wedi galluogi hwn i fod yn ddigwyddiad ar gfyer Cymru gyfan.